## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 25 Ionawr 2002 |
| **Amser:** | 10.00am hyd 12.45pm |
| **Lleoliad:** | Y Ganolfan Gymunedol, Llanfairfechan |

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Eleanor Burnham, Cadeirydd | Gogledd Cymru |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Gareth Jones | Conwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Alison Halford | Delyn |
| *Yn bresennol* | |
| Chris Farrow | Awdurdod Datblygu Cymru |
| Sasha Davies | Awdurdod Datblygu Cymru |
| Sheila Drury | Fforwm Economaidd Gogledd Cymru ac ELWa |
| Graham Davies | ELWa |
| Dave Heggerty | Cyngor Sir y Fflint |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Rhagymadrodd ac ymddiheuriadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis Thomas, John Marek, Tom Middlehurst, Ieuan Wyn Jones a Rod Richards.

## Eitem 2: Cofnodion ac adrodd yn ôl o'r cyfarfod blaenorol

2.1 Cymeradwyodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2001.

2.2 Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 15 Mawrth yng Nghanolfan Busnes Conwy a thema'r diwrnod fydd hawliau'r anabl.

**Eitem 3: Cyflogaeth a datblygu economaidd yng Ngogledd Cymru**

3.1 Rhoddodd Chris Farrow, Cyfarwyddwr Gweithredol Awdurdod Datblygu Cymru yng Ngogledd Cymru, gyflwyniad ar y camau y mae'r Awdurdod Datblygu yn eu cymryd yng Ngogledd Cymru i gefnogi'r economi rhanbarthol. Roedd gwybodaeth fanwl wedi'i chynnwys ym mhapur NWR 01-02 (p1) i'r Pwyllgor. Yn fyr, ceisiai'r Awdurdod Datblygu arddel y strategaeth i Gymru-gyfan a osodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol a'i rhoi ar waith yn lleol gyda phartneriaid yn y rhanbarth.

3.2 Yn ystod y drafodaeth, dywedodd Chris Farrow fod materion yn ymwneud ag adeiladau a safleoedd yn llesteirio datblygiad llawer o fusnesau bach a chanolig eu maint yn y rhanbarth. Roedd angen i'r system gynllunio annog synergedd cadarnhaol rhwng anghenion datblygu'r economi a chadwraeth yr amgylchedd uchel ei ansawdd a geir yn y rhanbarth. Mae i ddatblygiadau mawr gyfnod rhagarweiniol hir cyn i'w manteision ddod yn amlwg ac felly nid yw oedi cyn gwneud penderfyniadau cynllunio yn beth i'w ddymuno.

3.3 Awgrymwyd y byddai'r dreth newydd ar agregau yn rhoi baich neilltuol ar chwareli yn y rhanbarth. Roedd y dreth yn cael ei chyflwyno'n genedlaethol felly dylid ymdrechu i sicrhau mewnbwn rhanbarthol i'r broses benderfynu.

3.4 Roedd y datblygiadau ar seilwaith TGCh band llydan yn hynod bwysig i'r rhanbarth ac i weddill y DU. Byddai'n rhaid sicrhau lefelau uchel o fuddsoddiad cyhoeddus dros gyfnod hir ond roedd arwyddion calonogol i'w gweld yn barod yng Ngogledd Cymru wrth i nifer o brosiectau a chlystyrau busnes uwch-dechnoleg ddatblygu.

3.5 Fel y byddid yn disgwyl, roedd yna gydberthynas rhwng gweithgaredd yr Awdurdod Datblygu a thrwch y boblogaeth. Serch hynny, roedd gan yr Awdurdod nifer o brosiectau bach ar waith sydd wedi'u targedu at gymunedau llai, mwy pellennig. Roedd y rhain yn helpu i ddarparu'r blociau adeiladu ar gyfer cymorth pellach a gâi ei sianelu drwy'r Cynllun Adfer Gwledig.

3.6 Mewn rhai rhannau o Gymru wledig a Gogledd Orllewin Cymru, roedd allfudo, yn enwedig ymysg pobl ifanc, yn ystyriaeth bwysicach i'r farchnad lafur na cholli ac ennill swyddi. Gallai colli pobl ifanc, yn arbennig, effeithio yn ei dro ar entrepreneuriaeth ac ar sefydlu busnesau newydd.

3.7 Roedd yr Awdurdod Datblygu yn ceisio bod yn rhagweithiol wrth gynllunio cymorth mewn ardaloedd lle'r oedd colledion swyddi yn debygol. Dywedodd Chris Farrow fod yr Awdurdod yn cael ei ystyried yn fodel o arferion da gan lawer o asiantaethau datblygu rhanbarthol, er bod posibl gwneud mwy bob amser yn y cyswllt hwn. Yn aml, trwy ddiffiniad bron, nid oedd unrhyw adroddiadau yn

ymddangos am ymyrryd llwyddiannus cyn gynted ag y deuai anawsterau i'r amlwg, gan osgoi colli swyddi.

3.8 Gan gyfrannu o'r llawr, awgrymodd cynrychiolydd o Cymuned y dylid adleoli S4C i Wynedd er mwyn cynyddu'r gyflogaeth sector cyhoeddus sydd ar gael yn y rhanbarth. Roedd Chris Farrow yn cydymdeimlo â'r egwyddor o leoli cyrff cyhoeddus o amgylch Cymru a thynnodd sylw at y ffaith fod is-adran iaith yr Awdurdod wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru.

3.9 Teimlai Bob Barton, cynghorydd cymuned, fod angen canolbwyntio ar annog entrepreneuriaid a darparu cymhellion i ddenu pobl sydd wedi symud oddi yma i ddod yn ôl i Ogledd Cymru. Dywedodd Chris Farrow fod gan yr Awdurdod Datblygu raglenni sy'n anelu'n benodol at annog micro-fusnesau yn ogystal â busnesau bach a chanolig eu maint. Cytunai y gellid dysgu gwersi oddi wrth Iwerddon lle cafwyd cryn lwyddiant yn annog gweithwyr medrus i ddychwelyd.

3.10 Holodd Nigel Peacock o Brifysgol Bangor a oedd yr Awdurdod Datblygu yn ystyried y cyfle i ddefnyddio arbenigedd y Brifysgol mewn gwyddor môr. Dywedodd Chris Farrow fod cynlluniau yn cael eu hystyried i ddatblygu fferm bysgod ar Ynys Môn. Cytunai fod hwn yn faes twf a bod cyngor arbenigol yn bwysig.

3.11 Anogodd y Cynghorydd Darren Millar yr Awdurdod Datblygu i ganolbwyntio mwy ar ddatblygu busnes yn gyffredinol yn hytrach na chanolbwyntio cymaint ar y sector gweithgynhyrchu.

3.12 Tynnodd Godfrey Northam o Fethesda sylw at y pwysigrwydd i economi'r rhanbarth o ddatblygu'r A55 fel cyswllt ag Iwerddon a Lloegr.

3.13 Galwodd Handel Morgan o Gyngor Tref Llangefni am ragor o gyd-drefnu rhwng asiantaethau cyhoeddus er mwyn annog a chadw cyflogaeth ar Ynys Môn. Cytunai Chris Farrow fod angen cydweithio ac elwa i'r eithaf ar fanteision seilwaith yr A55.

3.14 Rhoddodd Sheila Drury, Cadeirydd Grp Addysg, Hyfforddiant a Sgiliau Fforwm Economaidd Gogledd Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Rhanbarthol Gogledd Cymru ELWa, gyflwyniad ar ddatblygiadau diweddar yn ELWa a'r saith blaenoriaeth a oedd wedi'u rhestru yn Natganiad Anghenion a Blaenoriaethau Rhanbarthol Gogledd Cymru, sef:

- Strategaeth Gyfathrebu rhwng Cyflogwyr a Darparwyr
- Sgiliau Hanfodol
- Strategaeth Ddatblygu Ranbarthol
- Datblygu Busnesau Seiliedig ar Wybodaeth
- Datblygu Cymunedau sy'n Dysgu
- Rheoli Addysg a Hyfforddiant
- Ymwybyddiaeth o'r Cwsmer ymysg Hyfforddwyr ac Addysgwyr

Rhoddwyd manylion llawnach yn Natganiad Anghenion a Blaenoriaethau Rhanbarthol Gogledd Cymru (a gynhwyswyd fel Papur Pwyllgor NWR 01-02 (p2))

3.15 Dywedodd Meurig Hughes, o Gyngor Tref Llangefni, fod angen sianelu pobl ifanc o'r cwrs addysg y maent yn ei ddewis at gyflogaeth berthnasol. Cytunai Sheila Drury fod angen darparu gwybodaeth i fyfyrwyr am oblygiadau gyrfaol cyrsiau neilltuol er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail y ffeithiau.

3.16 Tynnodd Larry Mccreadie o Gronfa Ddysgu Undebau Cymru sylw at bwysigrwydd hyfforddiant da i'r sawl a gyflogir i weithio gyda phobl ifanc yn y gwasanaeth ieuenctid. Canmolodd Sheila Drury waith Cronfa Ddysgu Undebau Cymru ac roedd yn cefnogi sylwadau Mr Mccreadie.

3.17 Dywedodd cynrychiolydd o Gyrfa Cymru fod angen mwy o eglurder yngln â rôl a brîff yr asiantaethau amrywiol sy'n ymwneud â darparu cyngor ar gyflogaeth a gyrfaoedd. Roedd angen neilltuol i sicrhau bod gwybodaeth am y farchnad lafur ar gael yn fwy eang a'i bod yn llifo'n haws. Dylid edrych ar gyngor a chyfarwyddyd gyrfaol fel ffordd o gynnal, yn ogystal ag ysgogi, cyfranogiad mewn addysg. Roedd y twf yn y defnydd o TGCh a swmp y wybodaeth yn golygu bod cyfarwyddyd wyneb-yn-wyneb yn dod yn fwy pwysig fyth.

3.18 Cytunai Sheila Drury fod angen osgoi tensiwn rhwng cyrff cyhoeddus a bod angen iddynt symleiddio'u gweithgareddau. Roedd strategaeth ddatblygu ranbarthol ELWa yn ceisio darparu'r cyfeiriad a'r themâu y gellid seilio gweithgaredd wedi'i gyd-drefnu o'u cwmpas. Gobeithiai hefyd y byddai'r sawl sy'n gyfrifol am wario arian cyhoeddus yn cydnabod yr angen am synnwyr cyffredin a chydweithrediad er mwyn cyflawni amcanion cyffredin.

3.19 Dywedodd Ken Hughes, o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, fod llawer o'i gleientiaid yn dioddef o ddyslecsia ond na allent fforddio'r £150 sy'n ofynnol i gael yr asesiad angenrheidiol. Cynigiodd Sheila Drury siarad â Mr Hughes ar y mater penodol hwn y tu allan i'r cyfarfod ond cytunai fod dyslecsia yn fater pwysig i ELWa roi sylw iddo.

3.20 Nododd y Pwyllgor fod tystiolaeth wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar brofiadau Iwerddon. Un o'r ffactorau allweddol wrth wraidd llwyddiant economaidd Iwerddon fu'r buddsoddi mewn hyfforddiant wrth iddynt ragweld y cyfleoedd diwydiannol a fyddai'n cynnig eu hunain yn y dyfodol. Dywedodd Sheila Drury fod ELWa yn awyddus i weithio gyda'r Awdurdod Datblygu a'r Cynulliad i'r perwyl hwn. Roedd yn rhaid wrth ymdrechion hirdymor i hyfforddi peirianwyr a phroffesiynau eraill sy'n galw am sgiliau lefel uchel ac roedd yn bwysig gweithredu'n awr i sicrhau y caiff anghenion sgiliau'r dyfodol eu diwallu.

3.21 Rhoddodd Dave Heggerty, Pennaeth Datblygu Economaidd a Thwristiaeth yng Nghyngor Sir y Fflint, yn siarad ar ran Grp Busnes Fforwm Economaidd Gogledd Cymru, gyflwyniad ar brosiect Airbus A380 ym Mrychdwn a'i oblygiadau i Ogledd Cymru (ynghlwm fel NWR 01-02 (p3)).

3.22 Dywedodd Sheila Drury fod ELWa wedi dechrau cymryd camau i ymdrin â'r angen am brentisiaid ym Mrychdwn. Ni fyddai'r ddarpariaeth gyfredol yn ddigonol, serch hynny, felly byddai ELWa yn annog colegau eraill i gynnig hyfforddiant addas er mwyn ateb anghenion Airbus. Roedd yn bwysig mynd i'r afael â'r mater hwn mewn addysg cyn-16 hefyd a sicrhau bod myfyrwyr yn symud ymlaen yn rhwydd drwy holl gamau'r gyfundrefn addysg heb unrhyw ddirywiad yn eu perfformiad. Roedd camau'n cael eu cymryd eisoes yng Ngogledd Cymru i archwilio'r posibiliadau o ddarparu hyfforddiant galwedigaethol o 14 oed. Câi'r hyblygrwydd a ddarperir yn y Mesur Addysg cyfredol i'r Cynulliad deilwrio'r cwricwlwm cenedlaethol yn unol ag anghenion Cymru ei groesawu yn y cyswllt hwn.

3.23 Cytunai Dave Heggerty fod trafnidiaeth i ac o safle Brychdwn yn holl-bwysig os oedd pobl o Ogledd Cymru i elwa o'r cyfleoedd cyflogaeth a gynigir yno. Roedd astudiaeth wedi cael ei chomisiynu i'r cysylltiadau ffordd a chludiant cyhoeddus â'r safle ac roedd arosfa drenau newydd o dan ystyriaeth ar gyfer Glannau Dyfrdwy.

3.24 O'r llawr, galwodd y Cynghorydd Ken Stevens o Benmaenmawr am gyd-drefnu gwaith ffordd ar yr A55 yn well er mwyn osgoi oedi dianghenraid. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gofyn i swyddogion yn y Cynulliad ymateb yn ysgrifenedig i Mr Stevens.

3.25 O'r llawr, cododd Meurig Hughes fater cyllido'r gwasanaethau iechyd. Teimlai fod y gwasanaeth iechyd yng Ngogledd Cymru yn cael ei gosbi oherwydd ei reolaeth ariannol dda yn y gorffennol ac y byddai'r argymhellion yn Adroddiad Townsend yn peri anfanteision pellach iddo.

3.26 Tynnodd Bob Barton sylw at yr amrywiadau yn y rheolau cyllido sy'n cael eu cymhwyso i wahanol gategorïau o fyfyrwyr ar gyrsiau hyfforddi galwedigaethol. Cynigiodd Linda Evans, o Brifysgol Bangor, drafod y sefylla yno, y tu allan i'r cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth** **Ionawr 2002**